



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2010 Rhif 1503 (Cy.137)**

**2010 No. 1503 (W.137)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**Gorchymyn Blaenau Gwent  
(Cymunedau) 2010**

**The Blaenau Gwent (Communities)  
Order 2010**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi effaith i argymhellion gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn"), a gyflwynodd ei adroddiad ym Medi 2009 ar ei adolygiad o ffiniau'r cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Yr oedd adroddiad y Comisiwn yn argymhell newid ffiniau presennol cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiad.

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission") which reported in September 2009 on its review of the community boundaries in the County Borough of Blaenau Gwent. The Commission's report recommended changes to the existing boundaries of communities in the County Borough of Blaenau Gwent. This Order gives effect to the Commission's recommendations without modification.

Effaith y Gorchymyn hwn yw gwneud newidiadau mewn nifer o ardaloedd cymunedol a rhai newidiadau canlyniadol mewn trefniadau etholiadol. Trosglwyddir rhan o gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau i gymuned Abertyleri. Gwneir newidiadau i'r ffin rhwng cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau. Diddymir cymuned bresennol Beaufort a rhennir yr ardal honno'n dair cymuned newydd, sef Badminton, Beaufort a Rasa. Mae'r ardaloedd hyn yn ffurfio adrannau etholiadol newydd Badminton, Beaufort a Rasa. Diddymir cymuned bresennol Glynebwy, a rhennir yr ardal honno'n ddwy gymuned newydd, sef Gogledd Glynebwy a De Glynebwy, sy'n ffurfio adrannau etholiadol newydd Gogledd Glynebwy a De Glynebwy.

The effect of this Order is that there are changes to a number of community areas and some consequential changes in electoral arrangements. Part of the community of Nantyglo and Blaina is transferred to community of Abertillery. Changes are made to the boundary between the communities of Brynmawr and Nantyglo and Blaina. The existing community of Beaufort is abolished and the area divided into three new communities, Badminton, Beaufort and Rassau. These areas constitute the new electoral divisions of Badminton, Beaufort and Rassau. The existing community of Ebbw Vale is abolished and the area divided into two new communities, Ebbw Vale North and Ebbw Vale South, which constitute the new electoral divisions of Ebbw Vale North and Ebbw Vale South.

Mae printiau o'r mapiau sy'n dangos y ffiniau wedi eu hadneuo yn y manau canlynol, a gellir eu harchwilio yno yn ystod yr oriau swyddfa arferol: swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Y Swyddfeydd Bwrdeistrefol, Y Ganolfan Ddinesig,

Prints of the maps showing the boundaries are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Blaenau Gwent County Borough Council, Municipal Offices, Civic Centre, Ebbw Vale NP23 6XB and at the offices of the Welsh Assembly

Glynebwy NP23 6XB a swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, yn yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol.

Mae'r Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (O.S. Rhif 1976/246), y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynglŷn ag effaith a gweithredu gorchmynion megis hwn.

Government at Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (Local Government Policy Division).

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (S.I. No 1976/246) referred to in article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

**2010 Rhif 1503 (Cy.137)**

**LLYWODRAETH LEOL,  
CYMRU**

**Gorchymyn Blaenau Gwent  
(Cymunedau) 2010**

*Gwnaed*

*21 Mai 2010*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) i (4)*

Cyflwynwyd adroddiad i Weinidogion Cymru, dyddiedig Medi 2009, gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(1), ar adolygiad y Comisiwn o ffiniau cymunedau ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'i argymhellion ar gyfer y cymunedau hynny.

Penderfynodd Gweinidogion Cymru roi effaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

Aeth mwy na chwe wythnos heibio er pan gyflwynwyd y cynigion hynny i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(2):

**Enwi a chychwyn**

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010.

(2) At unrhyw ddiben a bennir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar 1 Mehefin 2010.

---

(1) 1972 p.70.

(2) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac y maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

**2010 No. 1503 (W.137)**

**LOCAL GOVERNMENT,  
WALES**

**The Blaenau Gwent (Communities)  
Order 2010**

*Made*

*21 May 2010*

*Coming into force in accordance with article 1(2) to (4)*

The Local Government Boundary Commission for Wales submitted to the Welsh Ministers, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(1), a report dated September 2009 on its review of, and proposals for, the community boundaries in the County Borough of Blaenau Gwent.

The Welsh Ministers have decided to give effect to the Commission's proposals without modification.

More than six weeks have elapsed since these proposals were submitted to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(2):

**Title and commencement**

1.–(1) The title of this Order is The Blaenau Gwent (Communities) Order 2010.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations this Order comes into operation on 1 June 2010.

---

(1) 1972 c.70.

(2) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) At ddibenion cyfrifo unrhyw dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas ag annedd mewn ardal a drosglwyddir o dan y Gorchymyn hwn o un gymuned i gymuned arall, rhaid ystyried bod y trosglwyddiad yn digwydd ar 1 Ebrill 2011.

(4) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2010, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

## Dehongli

### 2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyron "Map A" ("*Map A*"), "Map B" ("*Map B*"), "Map C" ("*Map C*"), "Map D" ("*Map D*"), "Map E" ("*Map E*"), "Map F" ("*Map F*"), "Map G" ("*Map G*"), "Map H" ("*Map H*"), "Map I" ("*Map I*"), "Map J" ("*Map J*"), "Map K" ("*Map K*") a "Map L" ("*Map L*") yw'r mapiau a farciwyd, yn eu trefn, fel mapiau A, B, C, D, E, F, G, H, I, J, K ac L o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010, ac a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "newydd" ("*new*"), mewn perthynas ag ardal llywodraeth leol neu etholiadol, yw'r ardal honno fel y'i sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "presennol" ("*existing*"), mewn perthynas ag ardal llywodraeth leol neu etholiadol, yw'r ardal honno fel y mae'n bodoli yn union cyn y diwrnod penodedig;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(1);

mae unrhyw gyfeiriad at gymuned neu adran etholiadol yn gyfeiriad, yn eu trefn, at gymuned neu adran etholiadol o Fwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, rhaid ei thrin fel pe bai'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

### Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau – newid yn yr ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol yn yr adran etholiadol

3. Mae'r rhan o gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau a ddangosir â llinellau ar Fap A—

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Abertyleri;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Cwmtylleri o gymuned Abertyleri; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Cwmtylleri.

(3) For the purposes of calculating any council tax payable in respect of a dwelling in an area which under this Order is transferred from one community to another, the transfer is to be regarded as taking place on 1 April 2011.

(4) For all other purposes this Order comes into force on 1 December 2010, which is the appointed day for the purposes of the Regulations.

## Interpretation

### 2. In this Order—

"existing" ("*presennol*"), in relation to a local government or electoral area, means that area as it exists immediately before the appointed day;

"Map A" ("*Map A*"), "Map B" ("*Map B*"), "Map C" ("*Map C*"), "Map D" ("*Map D*"), "Map E" ("*Map E*"), "Map F" ("*Map F*"), "Map G" ("*Map G*"), "Map H" ("*Map H*"), "Map I" ("*Map I*"), "Map J" ("*Map J*"), "Map K" ("*Map K*") and "Map L" ("*Map L*") mean respectively the maps marked A, B, C, D, E, F, G, H, I, J, K and L of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010 and deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations;

"new" ("*newydd*"), in relation to a local government or electoral area, means that area as established by this Order;

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(1);

any reference to a community or an electoral division is a reference to respectively a community or an electoral division of the County Borough of Blaenau Gwent; and

where a boundary shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature it is to be treated as running along the centre line of the feature.

### Abertillery and Nantyglo and Blaina – change to community areas and consequential change to electoral division

3. The part of the community of Nantyglo and Blaina shown hatched on Map A—

- (a) is transferred to the community of Abertillery;
- (b) forms part of the Cwmtillery ward of the community of Abertillery; and
- (c) forms part of the electoral division of Cwmtillery.

(1) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol, ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn).

(1) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant for the purposes of this Order).

**Diddymu cymuned Beaufort a chreu cymunedau newydd – Badminton, Beaufort a Rasa**

4.–(1) Diddymir cymuned bresennol Beaufort.

(2) Crëir tair cymuned newydd, a enwir Badminton, Beaufort a Rasa.

(3) Mae'r darn a ddangosir â llinellau ar Fap B–

- (a) yn cael ei drosglwyddo i gymuned newydd Beaufort; a
- (b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Beaufort.

(4) Mae'r rhan o adran etholiadol Beaufort a ddangosir â llinellau ar Fap C yn ffurfio rhan o adran etholiadol Badminton.

(5) Mae'r rhan o adran etholiadol Badminton a ddangosir â llinellau croes ar Fap C yn ffurfio rhan o adran etholiadol Beaufort.

(6) Mae'r rhan o adran etholiadol Badminton a ddangosir â llinellau ar Fap D yn ffurfio rhan o adran etholiadol Rasa.

(7) Ffurfir cymuned newydd Beaufort, ac adran etholiadol Beaufort fel y'i newidir gan baragraffau (3), (4) a (5), o'r darn a ddangosir â llinellau ar Fap E.

(8) Ffurfir cymuned newydd Badminton, ac adran etholiadol Badminton fel y'i newidir gan baragraffau (4), (5) a (6), o'r darn a ddangosir â llinellau ar Fap F.

(9) Ffurfir cymuned newydd Rasa, ac adran etholiadol Rasa fel y'i newidir gan baragraff (6), o'r darn a ddangosir â llinellau ar Fap G.

**Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau – newid yn ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol mewn adrannau etholiadol**

5.–(1) Mae'r rhan o gymuned Bryn-mawr a ddangosir â llinellau ar Fap H–

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau;
- (b) yn ffurfio rhan o ward Nant-y-glo o gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Nant-y-glo.

(2) Mae'r rhan o gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau a ddangosir â llinellau croes ar Fap H–

- (a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Bryn-mawr;
- (b) yn ffurfio rhan o ward De Bryn-mawr o gymuned Bryn-mawr; ac
- (c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Bryn-mawr.

**Abolition of Beaufort community and creation of new communities – Badminton, Beaufort and Rassau**

4.–(1) The existing community of Beaufort is abolished.

(2) There are constituted three new communities named Badminton, Beaufort and Rassau.

(3) The area shown hatched on Map B–

- (a) is transferred to the new community of Beaufort; and
- (b) forms part of the electoral division of Beaufort.

(4) The part of the electoral division of Beaufort shown hatched on Map C forms part of the electoral division of Badminton.

(5) The part of the electoral division of Badminton shown cross-hatched on Map C forms part of the electoral division of Beaufort.

(6) The part of the electoral division of Badminton shown hatched on Map D forms part of the electoral division of Rassau.

(7) The new community of Beaufort, and the electoral division of Beaufort as changed by paragraphs (3), (4) and (5), comprises the area shown hatched on Map E.

(8) The new community of Badminton, and the electoral division of Badminton as changed by paragraphs (4), (5) and (6), comprises the area shown hatched on Map F.

(9) The new community of Rassau, and the electoral division of Rassau as changed by paragraph (6), comprises the area shown hatched on Map G.

**Brynmawr and Nantyglo and Blaina – change to community boundaries and consequential changes to electoral divisions**

5.–(1) The part of the community of Brynmawr shown hatched on Map H–

- (a) is transferred to the community of Nantyglo and Blaina;
- (b) forms part of the Nantyglo ward of the community of Nantyglo and Blaina; and
- (c) forms part of the electoral division of Nantyglo.

(2) The part of the community of Nantyglo and Blaina shown cross-hatched on Map H–

- (a) is transferred to the community of Brynmawr;
- (b) forms part of the Brynmawr South ward of the community of Brynmawr; and
- (c) forms part of the electoral division of Brynmawr.

**Diddymu cymuned Glynebwy a chreu cymunedau newydd – Gogledd Glynebwy a De Glynebwy**

6.–(1) Diddymir cymuned bresennol Glynebwy.

(2) Crëir dwy gymuned newydd, a enwir Gogledd Glynebwy a De Glynebwy.

(3) Mae'r darn a ddangosir â llinellau ar Fap I–  
(a) yn cael ei drosglwyddo i gymuned Cwm; a  
(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Cwm.

(4) Mae'r rhan o adran etholiadol Gogledd Glynebwy a ddangosir â llinellau ar Fap J yn ffurfio rhan o adran etholiadol De Glynebwy.

(5) Mae'r rhan o adran etholiadol De Glynebwy a ddangosir â llinellau croes ar Fap J yn ffurfio rhan o adran etholiadol Gogledd Glynebwy.

(6) Ffurfir cymuned newydd Gogledd Glynebwy, ac adran etholiadol Gogledd Glynebwy fel y'i newidir gan baragraffau (4) a (5) o'r darn a ddangosir â llinellau ar Fap K.

(7) Ffurfir cymuned newydd De Glynebwy, ac adran etholiadol De Glynebwy fel y'i newidir gan baragraffau (3), (4) a (5), o'r darn a ddangosir â llinellau ar Fap L.

**Abolition of the community of Ebbw Vale and creation of new communities – Ebbw Vale North and Ebbw Vale South**

6.–(1) The existing community of Ebbw Vale is abolished.

(2) There are constituted two new communities named Ebbw Vale North and Ebbw Vale South.

(3) The area shown hatched on Map I–  
(a) is transferred to the community of Cwm; and  
(b) forms part of the electoral division of Cwm.

(4) The part of the electoral division of Ebbw Vale North shown hatched on Map J forms part of the electoral division of Ebbw Vale South.

(5) The part of the electoral division of Ebbw Vale South shown cross-hatched on Map J forms part of the electoral division of Ebbw Vale North.

(6) The new community of Ebbw Vale North, and the electoral division of Ebbw Vale North as changed by paragraphs (4) and (5), comprises the area shown hatched on Map K.

(7) The new community of Ebbw Vale South, and the electoral division of Ebbw Vale South as changed by paragraphs (3), (4) and (5), comprises the area shown hatched on Map L.

*Carl Sargeant*


Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

21 Mai 2010

21 May 2010


# Map A o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg El Mawrhydi © Hawifraint y Goron 2010. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawifraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

317.09-10 Cynhyrchwyd gan Cartograffeg. Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Map A of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

317.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government




# Map B o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddatacynnwys yr Arcofwrdd Ordnans grida charnalfid yr Arcofwrdd Ordnans ar ran Rheolwr Gwraig E.I. Masurhvd © Harwllfrant y Goron 2010. Mae algorithmyrchiu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at eiryn neu achos sifil. Llywodraeth Cymunedau Cymru. Rhif y Dwyddedd: 100017916

317.09-10 Cynhyrchiwyd gan Cartograffeg,  
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymunedau Cymru

**Map B of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010**



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017916

317.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government

Map C o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Odrnau gyda channellid yr Arolwg Odrnau ar ran Rheolwr Gwasg E.I. Mawrhydi © Harriant y Goron 2010. Mae olgyrrychru heb awdurdod yn torth hawffraint y Goron a gall arwain at erlynn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Dwydded: 100017916

317.09-10 Cynhyrwyd gan Cartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map C of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017916

317 09-10 Produced by Cartographics. Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


Map D o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda charniald yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwaag E. Mawrhyd. © Hawffrant y Goron 2010.  
Mae atgryfhirchu heb awdurdod yn torri hawffrant y Goron a gall arwain at erlynn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Dwydded: 100017916

317-09-10 Cynhyrwyd gan Cartograffeg,  
Y Gyfarwyddiaeth Ysodegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map D of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017916

317/09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


# Map E o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2010.  
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.  
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif y Drwydded: 100017916

317.09-10 Cynhyrddwyd gan Cartograffeg,  
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Map E of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017915

317.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government




Map F o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda channell y'r Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg E.I. Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2010. Mae atgynhyrchu heb awdudd ym torti hawlfraint y Goron a gall amwain at enjin neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Dwydded: 100017916

317 09-10 Cynhyrwyd gan Cartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map F of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017916

317 06-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


Map G o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda charnald yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg E. Mawrhyd. © Hawlfraint y Goron 2010. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at efnyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Dwydded: 100017916

317-09-10 Cyrhychrwyd gan Cartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


**Map G of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010**



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017916

317 09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


Map H o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Ardwg Ordnans gyda chanatâd yr Ardwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg E.I. Mawrhydri © Hawffrant y Goron 2010. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffrant y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rliff y Drwydded: 100017916

317 09-10 Cynhyrwyd gan Cartograffeg  
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


# Map H of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017916

317 09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


## Map I o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrthdy © Hawlfraint y Goron 2010.  
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlynn neu achos sifil.  
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif y Drwydded: 100017916

317.09-10 Cynhyrwyd gan Cartograffeg.  
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Map I of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

317.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government




Map J o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda channell yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg E. Mawrhydys © Hawlfraint y Goron 2010. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall anwain at eiryn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Dwyddod: 100017916


317 09-10 Cynhyrwyd gan Cartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Map J of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017915


Map K o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda charnald yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg E. Mawrhydt © Hawlfraint y Goron 2010. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at eiddyn neu achos sifil. Llywodraeth Cymuned Cymru. Rhif y Drwydded: 100017816

317-09-10 Cynhyrwyd gan Cartograffeg, Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cymuned Cymru


Map K of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government Licence Number: 100017916

317 09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


## Map L o Orchymyn Blaenau Gwent (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawffraint y Goron 2010.  
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil.  
Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Dwydded: 100017916

317.09-10 Cynhyrchwyd gan Cartograffeg,  
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Map L of the Blaenau Gwent (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017915

317.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government

---

©© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.